



DISGRIFIAD SWYDD

TEITL Y SWYDD:	Cynorthwydd Cymunedau a Chynrychiolaeth Myfyrwyr: Cyfrifiadureg (myfyriwr presennol)
YN ATEBOL I:	Pennaeth Adran Llais y Myfyrwyr
CYFLOG:	Cyflog Byw Go lawn £13.45yr awr
ORIAU:	8 awr yr wythnos, i'w gweithio'n hyblyg mewn trafodaeth â'r rheolwr llinell.
DYDDIAD YR YSGRIFENNWYD:	Awst 2026

DIBEN Y SWYDD

Cryfhau cymuned academiaidd yr Adran Gyfrifiadureg trwy helpu myfyrwyr i wneud ffrindiau, meithrin sgiliau a llunio eu profiad addysgol.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. Meithrin Cymuned Academiaidd

- Rhoi grym i fyfyrwyr i gynnal digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol a'r tu allan i wersi ar gyfer myfyrwyr yn yr Adran Gyfrifiadureg.
- Cefnogi mentrau sy'n galluogi staff a myfyrwyr i weithio ar y cyd er gwell y profiad academiaidd.
- Gweithio gyda staff a myfyrwyr i ennyn mwy o gyfranogiad ymysg myfyrwyr ar ddiwrnodau agored, ymgartrefu, cyfleoedd swyddi a mentrau adrannol.

2. Magu Cyflogadwyedd a Sgiliau

- Cefnogi myfyrwyr i fanteisio ar gyfleoedd i ennill sgiliau a phrofiad perthnasol trwy weithgareddau adran a chymdeithasau academiaidd.
- Gweithio â'r Cynllun Parodwydd am Yrfa i gefnogi myfyrwyr o gefndiroedd heb eu cynrychioli'n iawn i fagu galluoedd, profiad a hyder trwy fynd ynghlwm â chymdeithasau academiaidd o natur Cyfrifiadureg.

3. Llais y Myfyrwyr a Chynrychiolaeth

- Helpu cydlynu cyfleoedd i fyfyrwyr gael rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau yr adran.
- Gweithio â Chynrychiolwyr Academiaidd a'r Gymdeithas Gyfrifiadureg i gefnogi gweithgarwch gwneud penderfyniadau ar y cyd o fewn yr Adran Gyfrifiadureg.
- Hyrwyddo a chefnogi defnyddio ar Unitu.
- Codi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd, etholiadau, Cyfarfodydd Cyffredinol Blyneddol a blaenoriaethau strategol eraill Undeb y Myfyrwyr ac annog cyfranogiad ynddynt.

- Helpu sicrhau y caiff myfyrwyr wybod am gamau a chanlyniadau a ddaw o ymatebion myfyrwyr a gweithgareddau cynrychiolaeth.

NEWIDIADAU YN Y SWYDD DDISGRIFIAD

Gall y disgrifiad swydd hwn newid unrhyw bryd yn dilyn ymgynghoriad â deiliad y swydd.

Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd hwn fod yn rhestr gynhwysfawr o dasgau a ddaw i ran deiliad y swydd. Serch hynny, mae'n gosod prif ddisgwyliadau'r Undeb o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau deiliad y swydd, a gall fod disgwyl i ddeiliad y swydd ymgymryd â gwaith amgen/ychwanegol sy'n gymesur â'r raddfa gyflog.

MANYLEB YR UNIGOLYN - CYDLINYDD CYMUNEDAU FFYDD

MEINI PRAWF	Angenrheidiol	Cais	Cyfweliad
CYMWYSTERAU			
Bod yn Fyfyriwr Prifysgol Aberystwyth presennol	Hanfodol	√	
DEALLTWRIAETH/PROFIAD			
Diddordeb mewn cefnogi a meithrin cymuned fyfyrwyr yr Adran Gyfrifiadureg	Hanfodol	√	√
Profiad o, neu frwdfrydedd dros, feithrin cymunedau myfyrwyr trwy ddigwyddiadau, gweithgareddau neu fentrau	Hanfodol	√	
Diddordeb mewn, neu brofiad o, gynrychioli myfyrwyr, ymgyrchu, cynghori, prosesau adborth neu sicrhau newid cadarnhaol i eraill	Hanfodol	√	√
Dealltwriaeth o'r materion y mae myfyrwyr mewn Addysg Uwch a/neu Undeb Myfyrwyr yn eu hwynebu	Hanfodol	√	√
Dealltwriaeth o fywyd myfyrwyr, cymdeithasau academiaidd neu weithgareddau adrannol yr Adran Gyfrifiadureg	Hanfodol	√	√
NODWEDDION/SGILIAU			
Y gallu i feithrin a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol ag ystod amrywiol o unigolion trwy ddull cyfeillgar, agos-atoch a chefnogol.	Hanfodol	√	√
Y gallu i gyfathrebu'n hyderus a deniadol gan gynnwys sgiliau llafar ac ysgrifennu cryf, y gallu i gyfathrebu'n effeithiol â myfyrwyr wyneb yn wyneb a dros lwyfannau digidol.	Hanfodol	√	√
Y gallu i drefnu a gweinyddu o safon uchel a'r gallu i reoli blaenoriaethau croes.	Hanfodol	√	√

Y gallu i weithio'n annibynnol a gweithgar, gan dynnu ar fenter tra'n cyfrannu'n effeithlon yn rhan o dîm.	Hanfodol	√	√
Medrusrwydd mewn Microsoft Office, Microsoft Teams, cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau digidol eraill.	Hanfodol	√	√
Y gallu i annog a chefnogi eraill i gymryd rhan mewn cyfleoedd, gweithgareddau a phrosiectau.	Hanfodol	√	√
Y gallu i hyrwyddo delwedd gadarnhaol o Undeb Aberystwyth ac ennyn diddordeb myfyrwyr yng ngweithgareddau Undeb y Myfyrwyr.	Hanfodol	√	√
Y gallu i gadw'n bwyllog dan bwysau a'r gallu i oresgyn heriau mewn modd buddiol.	Hanfodol		√
Dealltwriaeth o ac ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywioldeb ac ymarferion cynhwysol.	Hanfodol	√	√
Ymrwymiad i werthoedd ac amcanion Undeb Aberystwyth.	Hanfodol	√	
Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg.	Dymunol	√	
GWERTHOEDD A MOESEGAU			
Yn ymroddgar, cadarnhaol, mentrus ac agos-atoch gydag ymagwedd weithgar di-ffael	Hanfodol	√	